# Cyfarfod Blynyddol 2025

# Adroddiad y Trysorydd

(*elusen rhif 1190243)*

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar y cyd â Datganiad o'r Cyfrifon am 2024/25 sy'n crynhoi holl incwm a gwariant y Clwb ac yn dangos faint o arian sydd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn.

## Aelodaeth

'Roedd gan y Clwb 275 o aelodau yn talu £25 y pen o dâl aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Daeth hyn ag incwm o £6,880 (gydag un aelod wedi gordalu o £5). Yn ogystal 'roedd yna nifer o "garedigion". Unigolion ydi'r rhain sydd wedi bod yn aelodau yn y gorffennol ond heb gynyddu (na dileu) eu harchebion banc ac o'r herwydd sydd ddim mwyach yn gymwys i'w hystyried yn aelodau o'r Clwb. O'r rhain 'roedd 21 yn talu £20, 21 yn talu £15 a 6 yn talu symiau llai gan roi cyfanswm incwm o £788.

Mae'r Clwb yn perthyn i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP), sy'n darparu yswiriant ar gyfer y gweithgareddau. 'Roedd cost ymaelodi â'r CMP yn £29.33 y pen (gyda rhywfaint o ostyngiad yn ystod ail hanner y flwyddyn). Mae hyn yn gynnydd o 23% ar y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm y taliad i'r CMP oedd £8007.10.

## Cinio blynyddol

Derbyniwyd £990 at ginio blynyddol 2024 yn yr Oakeley Arms, Maentwrog a thalwyd £1,116.25. Gan fod rhywfaint o daliadau am y cinio wedi dod i law, a blaendal wedi ei dalu, yn y flwyddyn ariannol flaenorol, gwir gost y cinio i'r clwb oedd £73.75. Mae hyn yn cynrychioli rhan o gost llogi ystafelloedd i aelodau newid ynddynt ar ôl taith.

## Teithiau

Talwyd am ddwy daith breswyl yn ystod y flwyddyn - i Grianlarich mis Mawrth ac i Aviemore mis Mai. 'Roedd cyfanswm y derbyniadau ar gyfer y teithiau yn £14,175 a'r gwariant yn £13,596.53. Diolch i drefnydd y teithiau am sicrhau nad ydynt yn gwneud colled.

## **Incwm arall**

Yr unig incwm arall oedd llog banc o £131.21

## **Gwariant arall**

‘Roedd y gwariant yn cynnwys y costau rhedeg arferol yn ymwneud â bancio, gweinyddiaeth, y wefan, y ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac aelodaeth o’r Bartneriaeth Awyr Agored (sy’n cynnig hyfforddiant i’r aelodau). Hefyd gwnaed taliad o £360 allan o Gronfa Goffa Gareth Pierce am benwythnos i bobl ifanc yng Nglan Llyn. Mae hyn yn dod â’r gronfa i ben. Bu raid gwario ar fatri a padiau newydd i'r ddau ddiffibrilydd; bydd y gwariant yma yn digwydd bob rhyw 3 blynedd. Daeth cyfanswm y gwariant am y flwyddyn i £1,683.56.

## **Arian wrth gefn**

Ar ddiwedd y flwyddyn ‘roedd gan y Clwb £5,738.26 yn y coffrau. Fel a ragwelwyd yn adroddiad y llynedd mae hyn ostyngiad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i benderfyniad y CMP i gynyddu’r ffi aelodaeth, ond mae’r sefyllfa’n parhau’n foddhaol.

Mae’r Clwb angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy’n mynychu) ac hefyd er mwyn gwarchod yn erbyn gwariant annisgwyl. Credir fod swm o £5,000 yn ddigonol ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Gan bod angen i’r arian fod ar gael ar fyr rybudd mae’n cael ei gadw mewn cyfrif cadw yn y banc yn hytrach na’i fuddsoddi am dymor hirach.

## **Tal aelodaeth 2026**

Bydd ffi y CMP yn cynyddu eto ar 1 Ionawr 2026 i £30.74 yr aelod a bwriad y CMP ydi cynyddu eu ffi yn flynyddol yn unol â chwyddiant. Yn amlwg, felly, bydd raid i dâl aelodaeth y Clwb gynyddu i gwrdd â’r gofynion. Cyfarfu’r Pwyllgor i drafod y sefyllfa a phenderfynu argymell i’r Cyfarfod Blynyddol y dylid cynyddu’r tâl aelodaeth i £35 o 1 Ionawr 2026. Credir fod hyn yn parhau i gynnig gwerth am arian a bydd rhywfaint o arian yn cronni yn y coffrau dros y blynyddoedd nesaf fydd yn ddigon i gwrdd â ffi’r CMP am beth amser.

*Dilys Phillips*
*27 Hydref 2025*